

Rhestr wirio iechyd a diogelwch yn y dosbarth

Sut gall y rhestr wirio hon eich helpu

Mae eiddo ysgol yn adnodd gwerthfawr ar gyfer cymunedau lleol ac fe'i defnyddir yn gynyddol ar gyfer gwasanaethau estynedig.

Mae iechyd a diogelwch mewn ysgol yn ymwneud â dilyn ymagwedd synhwyrol a chymesur i sicrhau bod yr eiddo yn darparu lle iach a diogel i bawb sy'n eu defnyddio, yn cynnwys gweithlu, ymwelwyr a disgyblion yr ysgol.

Oherwydd nad oes angen asesiadau risg ysgrifenedig ar gyfer pob gweithgaredd dosbarth, mae'r rhestr wirio hon yn cael ei darparu i'w defnyddio yn ôl yr angen. Nid yw'n ofynnol, ond fe'i bwriadwyd fel offeryn defnyddiol. Gall ysgolion ddewis dulliau eraill o gydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch a sicrhau bod staff a phlant yn ddiogel.

Dylid sefydlu mesurau ledled yr ysgol i ddelio â'r risgiau gwirioneddol, fel nad oes angen i athrawon a staff cefnogaeth gynhyrchu asesiadau ysgrifenedig ar gyfer ystafell ddosbarth arferol – oni bai bod gweithgareddau newydd yn arwain at risgiau atodol.

Gall staff ddefnyddio'r rhestr wirio hon i help sicrhau bod ystafelloedd dosbarth arferol yn bodloni isafswm safonau iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, bydd y canlyniadau a chasgliadau o restrau gwirio a gwblhawyd yn darparu adnodd defnyddiol i dîm rheoli'r ysgol wrth adolygu eu hasesiadau risg ysgol gyfan.

Mae'r rhestr wirio yn offeryn i staff ysgol godi ymwybyddiaeth o feysydd pryder mewn ystafell ddosbarth. Mae gan gyflogwyr yn y sector addysg, p'un a ydynt yn awdurdod lleol, corff llywodraethu, ymddiriedolaeth neu berchennog, gyfrifoldebau ehangach dan gyfraith iechyd a diogelwch (see www.hse.gov.uk/services/education am gyngor pellach).

Defnyddio'r rhestr wirio

Mae'r rhestr wirio yn delio â'r meysydd mwyaf cyffredin o bryder/risg mewn ystafelloedd dosbarth arferol, ond nid yw'n hollgynhwysol. Nid yw'n delio â chyfleusterau drama na chwaraeon nac ystafelloedd dosbarth arbenigol, yn cynnwys labordai, celf, TG, cyfleusterau dylunio a thechnoleg neu ystafelloedd cyfeirio disgyblion.

Gellir ei ddefnyddio gan athrawon dosbarth, cynorthwywyr dysgu, staff eiddo neu benaethiaid adran – gall y rhai sy'n rhedeg yr ysgol benderfynu ar y ffordd orau i ddefnyddio'r rhestr wirio yn eu hysgol. Gellir ei ddefnyddio yn ôl yr angen, er enghraifft, ar ddechrau tymor i ddarparu sicrwydd i staff dysgu bod y meysydd risg mwyaf cyffredin yn yr ystafell ddosbarth yn cael eu rheoli'n ddigonol.

Mae wedi ei gynllunio i fod yn ddefnyddiol a chyflym a hawdd i'w ddefnyddio, ond nid oes rhaid i staff ei ddefnyddio. Os nad yw rhywbeth yn berthnasol i ystafell ddosbarth, nodwch 'Amh' (amherthnasol) a mynd ymlaen i'r cwestiwn nesaf. Mae yna le ar ddiwedd y rhestr i ychwanegu unrhyw faterion atodol.

Gwybodaeth bellach

Mae gan hafan yr HSE (www.hse.gov.uk/) wybodaeth ar bynciau cyffredinol i helpu cyflogwyr a staff dysgu i gydymffurfio â chyfraith iechyd a diogelwch. Mae gennym dudalennau gwe penodol ar gyfer addysg, sy'n darparu canllaw ar y mathau cyffredin o risgiau yn y sector (www.hse.gov.uk/services/education).

Rhestr wirio iechyd a diogelwch ar gyfer y dosbarth. Mae gan yr Adran Addysg, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth yr Alban ganllaw i ysgolion ar iechyd a diogelwch:

- **Lloegr:** www.education.gov.uk/schools/adminandfinance/healthandsafety
- **Cymru:** www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/allsectorpolicies/healthandsafety
- **Yr Alban:** www.scotland.gov.uk/topics/education/schools

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi datblygu'r rhestr wirio hon trwy ymgynghoriad cyhoeddus i helpu ysgolion i gydymffurfio â chyfraith iechyd a diogelwch. Fe'i cynhyrchwyd mewn ymgynghoriad â:

- Yr Adran Addysg a Sgiliau, Lloegr;
- Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cymru;
- Y Gyfarwyddfa Ddysgu, Pobl a Llefydd (LDSG), Llywodraeth yr Alban;
- Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol, Lloegr;
- Undebau llafur.

		✓	Angen gweithredu pellach	Amh
Cwestiynau y dylech eu gofyn:				
Symudiad o amgylch y dosbarth (llithro a baglu)	A yw'r llawr mewnol mewn cyflwr da?			
	A oes angen amlygu unrhyw newidiadau yn lefel neu'r math o lawr?			
	A yw'r aleau rhwng desgiau yn glir?			
	A yw ceblau/gwifrau trydanol sy'n ymlusgo wedi eu hatal os yn bosibl?			
	Yw'r golau'n ddigon llachar i ganiatáu mynediad ac ymadawiad diogel?			
	A oes gweithdrefnau i ddelio ag arllwys, e.e. dŵr, gwaed o anaf?			
	Ar gyfer dosbarthiadau annibynnol: ■ A yw'r grisiau mynediad neu rampiau wedi eu cynnal yn briodol? ■ A oes canllaw ar gyfer grisiau mynediad neu rampiau?			
Gweithio ar uchder (syrthio)	A oes gennych stôl 'troed eliffant' neu ysgol fach ar gael i'w defnyddio pan fydd angen?			
	A ddarparwyd agorwr ffenestri i agor ffenestri ar lefel uchel?			
Dodrefn a gosodiadau	A yw gosodiadau parhaol mewn cyflwr da ac wedi eu gosod yn ddiogel, e.e. cypyrddau, byrddau arddangos, sillfoedd?			
	Yw dodrefn mewn cyflwr da ac addas i ddefnyddwyr, oedolion neu blant?			
	Yw offer symudol yn sefydlog, e.e. teledu ar droli addas?			
	Ble gosodwyd atalwyr ffenestr i ffenestri llawr uwch, a ydynt mewn cyflwr gweithredol da?			
	A yw arwynebau poeth rheiddiaduron ac ati wedi eu diogelu ble fo angen i atal risg o losgi i bobl ifanc bregus?			
Codi a chario	A ddarparwyd troliau i symud pethau trwm, e.e. cyfrifiaduron?			
Cyfrifiaduron ac offer tebyg	Os defnyddir cyfrifiadur yn eich swydd, a gwblhawyd asesiad gweithle?			
	A gynghorwyd disgyblion ar arfer da wrth ddefnyddio cyfrifiadur?			
Offer a gwasanaethau trydanol	A yw switshis a socedi plygiau trydanol sefydlog mewn cyflwr da?			
	Yw'r holl blygiau a gwifrau mewn cyflwr da?			
	A yw offer trydanol symudol, e.e. lamineiddwyr, wedi eu gwirio a, ble fo angen, eu profi ar gyfnodau priodol i sicrhau eu bod y yn ddiogel i'w defnyddio? (Efallai bydd sticer i ddangos ei fod wedi ei brofi.)			
	A aethpwyd ag offer trydanol oedd wedi difrodi ymaith neu ei amnewid?			
Asbestos	Os yw'r ysgol yn cynnwys asbestos, a ddarparwyd manylion ei leoliad a'i gyflwr yn y dosbarth i chi?			
	A roddwyd unrhyw ganllaw i chi ar osod gwaith ar waliau/nenfydau allai gynnwys asbestos?			
Tân	Os oes yna ddrysau tân yn y dosbarth, a ydynt: ■ heb eu hatal; ■ heb eu cloi; ac ■ yn hawdd i'w hagog o'r tu fewn?			
	A oes offer diffodd tân yn y dosbarth?			
	A yw gweithdrefnau gwagio mewn tân wedi eu harddangos yn glir?			
	Ydych chi'n ymwybodol o'r drefn gadael, yn cynnwys trefniadau ar gyfer unrhyw oedolion neu blant bregus?			
Gweithle (awyru a gwresogi)	Oes gan yr ystafell awyriad naturiol?			
	A ellir cynnal tymheredd rhesymol wrth ddefnyddio'r ystafell ddosbarth?			
	A oes mesurau ar gael, er enghraifft bleindiau, i amddiffyn rhag llacharedd a gwres o'r haul?			

Nid yw hon yn rhestr hollgynhwysol a dylech nodi peryglon eraill sy' gysylltiedig â defnydd dyddiol o'r ystafell ddosbarth yn y gofod trosodd, yn cynnwys unrhyw weithredoedd eraill angenrheidiol. Os oes angen, trafodwch hyn gyda'ch pennaeth neu gyflogwr.

Materion atodol	✓	Angen gweithredu pellach	Amh

Angen gweithredu pellach

Peryglon a nodwyd:	Sut y gweithredwyd a phryd:

Enw (a swydd):	Llofnod:	Dyddiad:
Lleoliad/enw'r ystafell ddosbarth:		

Am ragor o wybodaeth ynglŷn ag iechyd a diogelwch, neu i adrodd anghysondeb neu wallau yn y canllaw hwn, ewch i www.hse.gov.uk. Gallwch weld canllaw'r HSE ar-lein a chyhoeddiadau am bris eraill o'r wefan hon. Mae cyhoeddiadau am bris yr HSE hefyd ar gael o siopau llyfrau.

Gellir dod o hyd i'r rhestr wirio hon ar-lein yn: www.hse.gov.uk/risk/classroom-checklist.htm.

©©Hawlfraint y Goron Os ydych yn dymuno aildefnyddio'r wybodaeth hon, ewch i www.hse.gov.uk/copyright.htm am fanylion. Cyhoeddwyd gyntaf 08/11.